**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-655
Ein cyf/Our ref:FM -/01128/15

William Powell AM
Chair - Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

11 Ionawr 2016

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2015 ynglŷn â deiseb P-04-655 "Mynnu ein hawliau i'r Gymraeg yn y sector breifat". Rwy'n falch eich bod yn rhoi ystyriaeth i'r mater hwn.

Rwy'n nodi bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi gofyn am gadarnhad mai bwriad y Llywodraeth yw gweithredu ar unrhyw amserlen benodol. Wrth reswm mae Llywodraeth Cymru, fel Comisiynydd y Gymraeg, yn awyddus i fedru cynnwys cynifer â phosib o sefydliadau a sectorau o dan y drefn safonau, a hynny mor fuan ag sy'n bosib. Mae'r drefn o wneud safonau wedi cael ei phennu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Wrth baratoi Rheoliadau i wneud safonau yn benodol gymwys i sefydliadau, mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i roi sylw dyladwy i gasgliadau ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n anodd iawn gwybod faint o amser sydd angen i baratoi rheoliadau sy'n addas ar gyfer gwahanol sectorau tan i ni dderbyn casgliadau'r Comisiynydd, a rhoi sylw dyladwy i'w chasgliadau ac ystyried ymatebion y sefydliadau a fu'n destun i'r ymchwiliad. I sicrhau ein bod yn medru paratoi Rheoliadau sy'n addas i'w gweithredu, fe fyddwn yn llunio a chyhoeddi amserlen addas ar gyfer sectorau penodol yn dilyn ystyried adroddiadau ymchwiliadau safonau a chasgliadau'r Comisiynydd.

Gofynnoch yn eich llythyr am fy marn ynglŷn â bwriadau'r Llywodraeth o ran diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fel i mi nodi yn fy llythyr dyddiedig 14 Hydref 2015, rwy'n hapus i ymrwymo i ddiwygio'r Mesur, a hynny ar sail y gwersi yr ydym wedi'u dysgu wrth weithredu'r Mesur yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae'n gynnar yn y broses i fedru rhoi manylion am yr union ddiwygiadau yr wyf yn bwriadu'u cyflwyno, ond rwy'n awyddus i ystyried ffyrdd o hwyluso'r broses o wneud safonau ac ystyried os oes angen ymestyn sgôp y Mesur i alluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod safonau ar sectorau eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydych hefyd yn gofyn am y rhesymau pam i Lywodraeth Cymru ofyn i fusnesau penodol gael eu tynnu yn ôl o drydydd ymchwiliad safonau'r Comisiynydd.  Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio dylanwadu ar ba gyrff mae'r Comisiynydd wedi cynnwys yn unrhyw un o'r ymchwiliadau safonau. Yn achos y trydydd ymchwiliad, fe nododd y Comisiynydd yn wreiddiol y byddai 259 o bersonau yn destun i'r ymchwiliad hwnnw. Anfonais i lythyr at y Comisiynydd ar 23 Medi 2014 yn nodi ei bod yn annhebygol y byddai modd paratoi rheoliadau i gynifer o gyrff cyn etholiad 2016. Ymateb y Comisiynydd i hynny oedd lleihau'r nifer o gyrff yn y trydydd ymchwiliad. Cwmnïau darparu gwasanaethau bysiau a threnau oedd nifer o'r cwmnïau a dynnwyd allan o'r trydydd ymchwiliad. Rwy'n falch bod y Comisiynydd wedi penderfynu cynnwys y sectorau hynny yn ei chynlluniau ar gyfer ymchwiliadau safonau sydd i'w cynnal yn 2016.

Yn gywir,

**CARWYN JONES**